

## *Cyngor Cymuned Llanllyfni*

### **Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor, Nos Fawrth y 11eg o Chwefror 2020.**

- 1. Presennol:** Barry Bracegirdle (Cadair), Iona Wyn Jones - Penygroes, Harry Wyn Owen, Gareth Lloyd Jones, Sian Dafydd – Talysarn; Hefina MW Roberts, OP Huws, Gwyndaf Roberts – Llanllyfni; Ffion Jones – Nantlle; Dafydd Thomas – Nebo; Judith Humphreys, Craig ab Iago – Cyngorwyr Sir /  
**Ymddiheuriadau:** Justin Davies, Dylan Herbert, Nerys Williams – Penygroes.
- 2. Datgan buddiant personol ynglyn ag unrhyw eitem a drafodir.** Nifer o'r Cyngorwyr yn datgan bod cysylltiad gyda mudiadau eitem rhif 6, ond doedd dim buddiant personol.
- 3. Cywirdeb cofnodion cyfarfod Ionawr.** Un cywirdeb i'w wneud, sef ar gyfer eitem 8 – 42 Bryn Celyn, nid 24. Gwyndaf yn datgan cywirdeb y cofnodion a Hefina yn eilio. Pawb yn cytuno.
- 4. Cyngorwyr Sir – Adroddiadau.** Derbyniwyd adroddiad yn ysgrifenedig ac ar lafar gan Judith Humphreys. Cafwyd adroddiad ar lafar gan Craig. Dywedodd bod ymgyngoriad ar hyn o bryd ar y gwasanaeth bws, ac y byddai adroddiad yn cael ei gyhoeddi yn fuan. Adroddodd fod achosion o ddwyn wedi bod yn Nantlle. Fe ddywedodd hefyd fod Dorothea wedi ei werthu i gwmni newydd, a bod cynlluniau ar y gweill i newid rhan o'r llwybrau, ond mewn rhan beryglus. Gofyn am gyfarfod rhwng Cyngorwyr Talysarn a chynrychiolaeth o'r cwmni newydd – y Clerc i gysylltu efo Ffion sef swyddog cyswllt Dorothea.
- 5. Parc Sglefrio Talysarn.** Sian wedi bod mewn cyfarfod efo Rhian George (Cyngor Gwynedd) a Craig ab Iago. Fe adroddod yn ol i'r Cyngor llawn. Fe ddywedodd fod y grwp Cruisers, oedd yn gyfrifol am y safle, wedi dod i ben, a nad oedd neb mewn lle i dalu'r yswiriant. Cyngor Gwynedd ddim yn fodlon rhoi'r brydles i grwp cymunedol arall, a bod angen corff statudol i gymryd y brydles. Efallai y byddai modd cael cynrychiolwyr o wahanol sefydliadau ar grwp newydd, a chael aelod o'r Cyngor Cymuned ar y grwp i sicrhau nad yw'r un sefyllfa yn codi eto. Dywedodd bod cyfle i'r Cyngor Cymuned gefnogi wrth gymryd y safle drosodd, ac efallai datblygu adnodd ar y safle ar gyfer plant bach. Byddai hyn yn helpu gwneud Talysarn yn lle mwy deniadol i drigolion ac ymwelwyr. Byddai'r Cyngor Cymuned yn gallu dod a'r brydles i ben drwy rybudd. Cyfle i'r Cyngor Cymuned drafod telerau efo Cyngor Gwynedd. Gofynnodd Sian os y byddai'r Cyngor Cymuned yn fodlon edrych i mewn i'r syniad yma o ddifrif, a llunio rhyw fath o gytundeb yn ddibynnol ar y telerau. **Penderfyniad** - Y Cyngor yn fodlon mewn egwyddor.
- 6. Cyfraniadau Ariannol 2019-2020.** Penderfynwyd cyfrannu £125 yr un i'r canlynol: Cyngorwyr Pel Rwyd Gwynedd a Mon, Canlofan Llys Llywelyn, Pwyllgor Nebo a Nasareth, Clwb Pel Droed Nantlle Vale, Neuadd Goffa Llanllyfni, Ffrindiau Penygroes, Dyffryn Nantlle 2020, Grwp Blodeuwedd, Eisteddfod Llanllyfni, Ambiwllans Awyr i Blant, Papur Bro Lleu, Clwb y Caban Penygroes, Ysgol Feithrin Talysarn, Cymdeithas Garddio Dyffryn Nantlle, Clwb Ffermwyr Ifanc Dyffryn Nantlle. Penderfynwyd cyfrannu £75 yr un i'r canlynol: Dawns i Bawb, Canolfan Hanes Uwch Gwyrfai, Cwmni Drama Bryn Rhos. (12 x £125, 3 x £75 = £2100. Cais Pwyllgor Ardal Nebo a Nasareth ar gyfer y prosiect Canglwm Siapaneaid i'w drafod mis Mawrth.
- 7. Materion yn codi o'r cyn gofnodion ac ymatebion Cyngor Gwynedd.** Y Clerc wedi gofyn am ffurflen gais ar gyfer enwebu Pwyllgor Nebo a Nasareth; Arwydd mynwentydd wedi ei ddylunio ac angen ei archebu – symud ymlaen, pawb yn cytuno. Diolch i Justin; Llythyr Ysgol Dyffryn Nantlle – angen ei addasu ychydig a'i yrru ymlaen i'r Llywodraethwyr. Angen nodi bod y Cyngor wedi bod yn trafod ers rhai misoedd am ddisgyblion yn gadael, a'r bwriad oedd i wahodd y Pennaeth i gyfarfod y Cyngor Cymuned er mwyn trafod. Efallai y byddai hyn yn gyfle i gael un o'r Cyngorwyr Cymuned i sefyll ar y Llywodraethwyr.
- 8. Materion Pentrefi ac Unrhyw Fater i'r Heddlu.** Talysarn Fan yn parcio ger Pen y Fron a cherbydau yn gorfod bagio yn ol – wrth ddiwedd y cyfyngiad 30mya; Llwybr o gwmpas y llyn yn fwd a dwr – Gloddfa Glai; Twll hanner ffordd fyny Lon Eglwys wedi gwaethygu ar ol y tywydd garw; Rhwng 2 a 3 Gloddfa Glai, coeden yn cau am y llwybr – cysylltu gyda ADRA. Nantlle Ger Bryn Deulyn, Tai Nantlle, tarmac yn gwisgo ac yn beryglus; Cysylltu efo'r Heddlu am bryderon gor-yrru yn Nantlle. Llanllyfni Diolch i Cyngor Gwynedd am adnewyddu'r bin ar y bont rhwng Llanllyfni a Penygroes; Lon Tyddyn Agnes yn dirywio yn ofnadwy – cerrig Sylfaen y lon i'w gweld rwan mewn ambell i le – cysylltu efo'r Adran Briffyrd. Nebo Cyngor Gwynedd wedi gwneud gwaith clwtio ar Lon Pant y Gog, ond yr ohrau dal yn torri i fyny; Nifer o drigolion yn ddi-Gymraeg, a pryder ei bod wedi mynd yn anodd cynnal cyfarfodydd ardal drwy gyfrwng y Gymraeg. Gofynwyd os oes bosib cael cynllun ar gyfer cael offer cyfieithu cymunedol? Byddai bosib creu cynllun cymunedol a gwneud cais am grant ar gyfer hyn fel prosiect newydd i ardal

Dyffryn Nantlle i gyd. Efallai cadw yn y llyfrgell. OP am gysylltu efo ADRA i holi os oes arian ar gael, a'r Cler i gysylltu efo Rhian George, Cyngor Gwynedd; Dafydd yn datgan bod y Pwyllgor Ardal yn cynllunio rhaglen am eleni ar gyfer y Canglwm. Penygroes Llauer y ysbwriel yn y safleoedd bws newydd. Gangiau o blant yn ymgynnull yn y tywyllwch. Judith am holi ble mae'r bin wedi mynd o'r lloches bws. Judith yn datgan bod cynlluni ar y gweill i oleuo'r maes parcio dros y ffordd i'r Co-op; Bydd wi-fi cymunedol ar gael cyn bo hir; Ymddygiad gwrthgymdeithasol – Judith a Craig yn rhan o Fwrdd y Bobl Ifanc.

**9. Llwybrau a Mynwentydd** Gofyn am fil erbyn y cyfarfod nesaf; Cysylltu efo Mark Balaam i holi am y ddogfen mae'n ei addasu. Y Cyngor Cymuned yn cytuno fod angen cydnabod y gwaith mae Mark yn ei wneud.

**10. Taflen Ariannol, Taflen Gyllid, Biliau i'w Talu.** A Johnson - £25 Ffon/Rhyngrwyd, A Johnson Derbynebaw £33.55; Cyngorwyr £150 yr un ar gyfer treuliau am y flwyddyn ariannol 2019-20 – (i'w ddatgan i'r HMRC) – fe hysbyswyd y Cyngorwyr fod y Clerc angen rhif Yswiriant Gwladol cyn gallu prosesu unrhyw daliad, a bod angen llenwi ffurflen a'i rhoi i'r Clerc os am wrthod y taliad ; Capel Soar £140; Llew hysbysebu £17.00; Cyngor Gwynedd – Llyfrgell £1240; B Bracegirdle derbynebaw £28.54; Un Llais £665.00

**11. Cynllunio.** Eithinog Ganol, Ffordd Clynnog, Penygroes – trosi adeiladau allanol i 3 uned gwyliau.

**12. Cyfarfodydd is-bwyllgor / cyfarfodydd yn ystod y mis** – Cyfarfod llawn i drafod swydd-ddisgrifiad a hysbyseb swydd Clerc. Diolchodd y Cadeirydd i Sian am yr holl waith mae hi wedi ei wneud efo'r hysbysebu. Dyddiad cau 15/2. Roedd pryder bod y cynnod yma yn rhy fyr, a nad oedd llawer wedi cysylltu am fwy o wybodaeth. Penderfynwyd bod angen ymestyn y dyddiad cau i'r 29ain o Chwefror, a rhoi'r hysbyseb allan ymhellach drwy rwydwaith y Daily Post. Cost yn £400 a TAW. Angen edrych ar gytundeb gyflogaeth newydd, gan nad yw'r gytundeb wreiddiol yn adlewyrchu'r gofynion presennol. Penderfynwyd defnyddio templed Un Llais, Dafydd Thomas am edrych arni a chylchredeg y gytundeb newydd arfaethedig wedi ei diwygio i ofynion Cyngor Cymuned Llanllyfni i'r Cyngorwyr; Cyfarfod Glynllifon – Barry yn adrodd yn ol. Gofynnodd os y byddai rhywun yn fodlon mynychu'r cyfarfodydd yma yn rheolaidd ar ran y Cyngor Cymuned. OP yn cytuno i fynychu ar y Sed o Fawrth.

**13. Gohebiaeth**

**\*Cyngor Gwynedd:**

\* Rhybuddion Ffordd – er gwybodaeth.

**\*Arall**

\* Un Llais-dogfennau a rannwyd yn ystod y mis – dim yn codi; Gwahoddiad i sgwrs Bro 360 ; Gwahoddiad Hunaniaith – OP am fynychu.